


EIN RÔL A
GWASANAETHAU

# Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

COMISIWN
ELUSENNAU

## Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ceisio rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y dull gorau posib er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a magu hyder a ffydd y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau o elusennau gofrestru. Mae rhyw 190,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau yn yr Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu gyda phroblemau. Rhaid i elusennau cofrestredig gydag incwm blynyddol o fwy na £10,000 roi gwybodaeth flynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym musnes elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Fe welwch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan www.charitycommission.gov.uk, neu drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol:


Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG



v1.1.3
Cyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau

# A. Cyhoeddiadau sydd ar gael gan y Comisiwn

Rydym yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau, mewn amryw o fformatau, sy'n darparu gwybodaeth am y gyfraith elusennau, arferion da cymeradwy, dyletswyddau ymddiriedolwyr elusen, a'n rôl fel rheolydd elusennau. Mae'r llyfryn hwn yn rhestru'r hyn sydd ar gael gan y Comisiwn, gan gynnwys codau archeb a dyddiad y fersiwn diweddaraf, i'ch helpu adnabod y wybodaeth y mae ei hangen arnoch neu rydych eisiau ei gwybod. I archebu unrhyw un o'n cyhoeddiadau, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 300 0218.

| Chyoeddiad | Cod archeb | Dyddiad y fersiwn |
|---|---|---|
| Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod | CC3 | 2/08 |
| Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Cyflwyniad | CC3a | 1/07 |
| Cais i gofrestru elusen (pecyn) | CC5 | 4/08 |
| Taliadau Ex Gratia gan Elusennau | CC7 | 12/01 |
| Rheolaethau Ariannol Mewnol i Elusennau | CC8 | 12/03 |
| Dweud eich dweud: Canllaw ar Ymgyrchu a Gweithgareddau Gwleidyddol gan Elusennau | CC9 | 3/08 |
| Nodweddion Elusen Effeithiol | CC10 | 7/08 |
| Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr | CC11 | 6/08 |
| Rheoli Trafferthion Ariannol a Methdaliad mewn Elusennau | CC12 | 9/04 |
| Gwasanaeth Dal Tir y Ceidwad Swyddogol i Elusennau | CC13 | 9/04 |
| Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol | CC14 | 12/04 |
| Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Yr hanfodion Ebrill 2008 | CC15a | 4/08 |
| Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau: Yr hanfodion Ebrill 2009 | CC15b | 4/09 |
| Pecyn Cyfrifon Derbyniadau a Thaliadau | CC16 | 4/09 |
| Pecyn Cyfrifon Croniadau | CC17 | 4/09 |
| Defnyddio Neuaddau Eglwysi ar gyfer Neuadd Bentref a Dibenion Elusennol Eraill | CC18 | 7/01 |
| Elusennau a Chodi Arian | CC20 | 4/08 |
| Cofrestru fel Elusen | CC21 | 4/08 |
| Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol | CC22 | 4/08 |
| Elusennau sydd wedi'u Hesgusodi | CC23 | 4/08 |
| Cynnwys Defnyddwyr: Buddiolwyr sy'n dod yn ymddiriedolwyr | CC24 | 3/00 |
| Darparu Alcohol ar Safleoedd Elusennau | CC27 | 11/02 |
| Gwerthu Tir Elusennau | CC28 | 11/08 |

| | | |
|---|---|---|
| Cael hyd i ymddiriedolwyr newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau ei wybod | CC30 | 10/07 |
| Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Canllaw Ymddiriedolwyr | CC31 | 10/08 |
| Archwiliad Annibynnol o Gyfrifon Elusennau: Canllaw Archwilwyr | CC32 | 10/08 |
| Prynu Tir | CC33 | 4/01 |
| Cydweithio a chyfuniadau: Cyflwyniad | CC34 | 7/08 |
| Newid dogfen lywodraethol eich elusen | CC36 | 3/08 |
| Elusennau a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus: Cyflwyniad a Throsolwg | CC37 | 2/07 |
| Apeliadau adeg Trychineb: Canllawiau'r Twrnai Gwladol | CC40 | 1/02 |
| Penodi Enwebeion a Gwarcheidwaid: Arweiniad dan adran 19(4) Deddf Ymddiriedolwyr 2000 | CC42 | 2/01 |
| Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau | CC43 | 7/02 |
| Cwynion am Elusennau | CC47 | 6/08 |
| Elusennau a Chyfarfodydd | CC48 | 5/03 |
| Elusennau ac Yswiriant | CC49 | 2/07 |

### Y Comisiwn Elusennau a Rheoleiddio

Mae'r cyhoeddiad hwn yn adlewyrchu ymagwedd y Comisiwn Elusennau at reoleiddio'r sector elusennol. Mae'n ailddatgan yr egwyddor bod rhaid i elusennau fod yn rhydd ac yn annibynnol ar llywodraeth, ac mae'n crynhoi'r saith egwyddor y byddwn yn gweithio tuag at eu cyflawn wrth reoleiddio sector sy'n hollbwysig i fywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

### Canllawiau Budd Cyhoeddus

*Elusennau a Budd Cyhoeddus* yw canllawiau statudol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus. Dyma ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a'r hyn y dylai ymddiriedolwyr elusen ei ystyried er mwyn dangos bod amcanion eu helusen er budd y cyhoedd. Fe'u hategir gan ganllawiau pellach ar gyfer meysydd elusennol penodol.

| | | |
|---|---|---|
| Elusennau a Budd Cyhoeddus | PB1 | 12/08 |
| Atal neu Leddfu Tlodi er Budd Cyhoeddus | PB2 | 12/08 |
| Hyrwyddo Addysg er Budd Cyhoeddus | PB3 | 12/08 |
| Hyrwyddo Crefydd er Budd Cyhoeddus | PB4 | 12/08 |
| Budd Cyhoeddus a Chodi Ffïoedd | PB5 | 12/08 |

### Dogfennau Llywodraethol Enghreifftiol Cyhoeddiad

| | | |
|---|---|---|
| Cwmnïau Elusennol: Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu Enghreifftiol | GD1 | 7/08 |
| Ymddiriedolaethau Elusennol: Gweithred Ymddiriedolaeth Enghreifftiol | GD2 | 11/07 |
| Cymdeithasau Elusennol: Cyfansoddiad Enghreifftiol | GD3 | 11/07 |

### Cyhoeddiadau'r Adolygiad o'r Gofrestr

Cyfres o adroddiadau ar agweddau ar statws elusennol. Mae'r canlynol ar gael o hyd mewn print, ac mae'r rhain ac eraill ar gael ar ein gwefan:

| | |
|---|---|
| Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau | RR1 |
| Cydnabod Dibenion Elusennol Newydd | RR1a |
| Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith | RR3 |
| Annibyniaeth Elusennau ar y Wladwriaeth | RR7 |
| Amgueddfeydd ac Orielau Celf | RR10 |

### Adroddiad Ymchwil

Cyfres o adroddiadau cyffredinol ar themâu sy'n effeithio ar elusennau.

| | |
|---|---|
| Recriwtio, Dewis a Sefydlu Ymddiriedolwyr | RS1 |
| Elusennau a Phartneriaid Masnachol | RS2 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Elusennau | RS3 |
| Cydweithio a Chyfuniadau | RS4 |
| Elusennau Bach a Chronfeydd Wrth Gefn | RS5 |
| Cerrig Milltir - Rheoli digwyddiadau allweddol ym mywyd elusen | RS6 |
| Elusennau Aelodaeth | RS7 |
| Tryloywder ac Atebolrwydd | RS8 |
| Neuaddau Pentref a Chanolfannau Cymunedol | RS9 |
| Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr | RS10 |
| Lle i Gwyno? Sut mae elusennau yn rheoli cwynion am eu gwasanaethau | RS11 |
| Adfywio: Ystod, rôl a phroffil elusennau adfywio | RS12 |
| Datgelu'r cyfan: Swm a pholisïau cronfeydd wrth gefn elusennau | RS13 |
| Yn eu geiriau eu hunain: Sut mae elusennau wedi ymateb ym | RS14 |

| | |
|---|---|
| mlwyddyn gyntaf y Ffurflen Gwybodaeth Gryno | |
| Darparu gwasanaeth: Y dyfodol i elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus | RS15 |
| Elusennau sy'n gweithio ym maes hawliau dynol (gwefan yn unig) | RS16 |
| Mynd yn Wyrdd: Elusennau a Chyfrifoldeb Amgylcheddol gwasanaethau cyhoeddus | RS17 |
| Dal yn Fantol: Golwg newydd ary berthynas rhwng elusennan a buddiolwyn | RS18 |

**Cyhoeddiadau sydd ar gael mewn ieithoedd eraill**

Mae pob un o'n cyhoeddiadau ar gael yn Saesneg.

Mae Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Cyflwyniad (CC3a) ar gael ar ein gwefan mewn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg, Gwjarati, Punjabeg, Somaleg ac Wrdw.

**Cyhoeddiadau sydd ar gael mewn fformatau eraill**

Mae cyhoeddiadau newydd a diwygiedig a gyhoeddwyd o 2007 ymlaen ar gael ar ddisg gryno, ac mae'r teitlau hynach ar gael ar gasét sain. Pan fyddwch yn gwneud cais am gasét sain dylech roi **AC**, o flaen y rhif, hy CC9 = AC9. Yn yr un modd ar gyfer cryno ddisg, dylech roi **CD** o flaen y rhif, hy CC3 = CD3.

Mae testun y rhan fwyaf o'n cyhoeddiadau ar gael mewn Braille neu brint mawr ar gais hefyd. Ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol i drefnu hyn a chaniatewch 15 diwrnod gwaith ar gyfer dosbarthu.

## B. Cyhoeddiadau cysylltiedig â'r Comisiwn sydd ar gael gan gyhoeddwyr eraill

Mae nifer o gyhoeddiadau a gynhyrchir gan gyrff eraill a thai cyhoeddi masnachol sy'n ymwneud ag elusennau. Mae'r cyhoeddiadau a restrir isod yn rhai sy'n ymwneud yn benodol â gwaith y Comisiwn, a chyhoeddiadau y gwnaethom gyfraniad sylweddol at eu cynhyrchu.

**Mae Cyfrifon ac Adroddiadau Elusennau - Datganiad o Arferion Cymerdawy (SORP 2005)** ar gael o'r cyhoeddwr, CCH, pris £15 y copi a £4.95 tâl post a phacio. I archebu ffoniwch CCH ar 0870 777 2906 (rhwng 8.30am a 5.30pm yn ystod yr wythnos) neu anfonwch e-bost at ei wasanaethau cwsmeriaid, gan ddyfynnu cod cynnyrch CCSORP yn customer.services@cch.co.uk. Fel arall archebwch ar-lein yn www.cch.co.uk. Gallach weld hwn ar-lein ar ein gwefan hefyd un www.charitycommission.gov.uk

**Comisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr: Adroddiad Blynyddol**
Mae ein Hadroddiadau Blynyddol ar gyfer y blynyddoedd diwethaf ar gael i'w prynu gan TSO (Y Llyfrfa) neu gan unrhyw un o'u hasiantau achrededig. I gysylltu â Chanolfan Gyhoeddi TSO, ffoniwch 0870 600 5522, ffacsiwch 0870 600 5533, neu e-bostiwch customer.services@tso.co.uk

**Deddf Elusennau 2006: Yr Hyn y mae Angen i Ymddiriedolwyr Wybod**
Mae'r canllaw hwn i'r Ddeddf newydd ar gael o Swyddfa'r Trydydd Sector trwy linell archebu cyhoeddiadau'r Adran Busnes Menter a Diwygio Rheoleiddiol. I archebu, ffoniwch 0845 0150010 (rhwng 8.30am a 5.30pm yn ystod yr wythnos) gan ddyfynnu cyfeirnod: 07/Z2. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim ac wedi'i gyfyngu i 20 copi y cwsmer.

## C. Sut i gael copïau o'n cyhoeddiadau

Mae'r rhan fwyaf o'n cyhoeddiadau ar gael mewn fformat HTML a PDF ar ein gwefan. Os hoffech gael copïau printiedig o unrhyw un o'n cyhoeddiadau, ffoniwch y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar **0845 300 0218** 08:00-20:00 awr Llun - Gwener a 09:00-13:00 awr ar ddydd Sadwrn (ac eithrio gwyliau cenedlaethol). Mae gwasanaeth typetalk gennym hefyd ar 0845 300 0219 i alwyr sydd â nam ar y clyw neu'r lleferydd. Fel arall, ysgrifennwch at:

**Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Mae pob un o'n cyhoeddiadau a restrir yn adran A yn rhad ac am ddim, ond caniatewch hyd at 10 diwrnod gwaith ar gyfer dosbarthu archebion. Sylwch hefyd fod nifer o'r archebion (a phob archeb fawr) yn cael eu hanfon trwy negesydd, felly mae'n bwysig lle bynnag y bo'n bosib eich bod yn rhoi cyfeiriad lle y bydd rhywun ar gael i dderbyn yr archeb.

Ceisiwn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth cwsmeriaid gorau posib. Os nad yw'r gwasanaeth a ddarparwn yn foddhaol am unrhyw reswm, cysylltwch â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol a rhowch fanylion llawn - gwnawn ein gorau glas i unioni pethau a dysgu unrhyw wersi ar gyfer y dyfodol.

## Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

**Comisiwn Elusennau**

Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau